SPC/10-04

# Adroddiad Is-grŵp y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar Grantiau Gwaith Teg mewn Busnes Llywodraeth Cymru

12 Chwefror 2026

**Cynnwys**


- **Crynodeb**
    - Amlinelliad
    - Prif Ganfyddiadau
    - Casgliadau
    - Argymhellion

- **Adran A: Cyfansoddiad a Chylch Gwaith**

- **Adran B: Y cyd-destun**
    - Cefndir
    - Tystiolaeth
    - Y Dirwedd Polisi a Deddfwriaeth
    - Gofynion Deddfwriaethol Penodol

- **Adran C: Casgliadau ac Argymhellion**
    - Argymhellion Strategol
    - Argymhellion Penodol
        - *Mynediad i undebau llafur a chontractau dim oriau*
        - *Y Cyflog Byw Gwirioneddol*

**-----**

- **Atodiad A: Papur cychwynnol gan TUC Cymru a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Gorffennaf 2025**

- **Atodiad B: Papur y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ymgynnull yr is-grŵp a drafodwyd ym mis Medi 2025**

- **Atodiad C: Cylch Gorchwyl Is-grŵp**

## Crynodeb

Daeth yr is-grŵp at ei gilydd ar gyfer cylch byr o chwe chyfarfod i archwilio cynigion ar gyfer ymyriadau gwaith teg mewn grantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn hydref 2025.

Daeth aelodau'r grŵp o'r sefydliadau cynrychioliadol busnes a'r undebau llafur. Aeth y grŵp ati i drafod agweddau allweddol ar dystiolaeth o werthusiad allanol parhaus o'r Contract Economaidd a gan swyddogion Llywodraeth yr Alban am brofiad eu polisi Fair Work First. Ochr yn ochr â thystiolaeth allanol, ystyriodd y grŵp y profiad hanesyddol o waith teg drwy bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a'r amgylchedd deddfwriaethol, polisi ac economaidd presennol.

Roedd yr is-grŵp yn cydnabod yr ymrwymiad hirsefydlog i bartneriaeth gymdeithasol fel ffordd o weithio yng Nghymru, ynghyd â'r berthynas agos rhwng partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Yn ogystal â chynrychioli set o werthoedd cyffredin, mae gan bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg sylfaen bolisi a sefydliadol gref trwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a'r ymrwymiad polisi i ddefnyddio ysgogiadau datganoledig i hyrwyddo gwaith teg. Canolbwyntiodd y grŵp ar dri maes allweddol sef talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, mynediad undebau llafur ar gais, a gwneud cynnig contractau oriau gwarantedig yn ofynnol. Cyfeirir at y meysydd hyn yn nhrafodaethau cychwynnol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Yn hydref 2025, fe bwysleisiodd y Prif Weinidog presennol ei bwriad i sbarduno'r tri ymyriad polisi a ystyrir gan yr adroddiad hwn, yn nhymor y Senedd newydd. Ac mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno ar y ddealltwriaeth mai Llywodraeth y dyfodol fydd yn penderfynu ar y materion ynddo yn y pen draw.

O ystyried y cyfyngiadau amser, roedd yr is-grŵp o'r farn mai'r peth mwyaf defnyddiol y gallai ei wneud oedd darparu man cychwyn dichonadwy ar gyfer datblygu polisi Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r amddiffynfeydd cymesur a chyfyngiadau ar ddatblygu cynigion synhwyrol.

## Amlinelliad

Dros gyfnod ymgynnull yr is-grŵp, cafodd y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth Gydsyniad Brenhinol, roedd y Contract Economaidd wrthi'n cael ei werthuso ac roedd Llywodraeth yr Alban yn paratoi i werthuso ei pholisi Fair Work First. Bu'r grŵp yn ystyried pob un o'r datblygiadau esblygol hyn gan geisio dysgu gwersi i'w helpu i lywio'r cyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Wrth ystyried mynediad undebau llafur gan y grŵp, cryfhawyd y Bil Hawliau Cyflogaeth (ar y pryd) o hawl i wneud cais i hawl i fynediad. Fe wnaeth y newid sylweddol hwn ddisodli trafodaethau parhaus yn y grŵp ynghylch trothwyon, diffiniadau o fynediad ac ymrwymiadau amser a fyddai'n fan cychwyn polisi synhwyrol. Mae'r darpariaethau yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 2025 yn adlewyrchu nodiadau polisi'r is-grŵp ar fynediad undebau llafur a chontractau dim oriau.

Roedd cyfyngiadau amser yn golygu mai contractau dim oriau a ystyriwyd leiaf gan yr is-grŵp o'r tri maes. Fodd bynnag, mae darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr gynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr cymwys yn seiliedig ar batrymau gweithio dros gyfnod cyfeirio i ryw raddau yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru ar eu defnydd mewn Gwasanaethau Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, ac fel y nodir yn natganiad polisi gwaith teg Llywodraeth Cymru: [Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU].

Y tu allan i gylch gwaith y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth, roedd mwy o amrywioldeb yn y drafodaeth am sefyllfa'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Penderfynodd y grŵp ar elfennau Cyflog Byw Gwirioneddol polisi Fair Work First Llywodraeth yr Alban fel man cychwyn pragmatig ar gyfer ystyried a datblygu polisi pellach, ond heb gymeradwyo rhinwedd y polisi.

Cynhaliwyd yr holl drafodaethau am feysydd unigol gwaith teg yng nghyd-destun ehangach cymesuredd a throthwyon posibl ar gyfer trefniadau amodol - trothwyon yn bennaf sy'n gysylltiedig â lefel y cyllid grant a maint busnes (yn ôl nifer y gweithwyr). Roedd trafodaethau y tu allan i'r prif gynigion polisi, a ysgogwyd gan gyflwyniad am werthusiad o'r Contract Economaidd, yn cynnwys cyfarwyddyd y dylai unrhyw amodau grant fod yn glir, yn gyson ac yn hawdd eu cymhwyso, gan gyfeirio hefyd at y rhyngwyneb gyda goblygiadau i'r fframwaith polisi sy'n bodoli'n barod a weithredir ar hyn o bryd drwy'r Contract Economaidd.

**Casgliad**

Cynhaliodd y grŵp adolygiad ysgafn dros chwe chyfarfod a daeth i'r casgliad bod argymhellion ar amddiffynfeydd a mannau cychwyn i Lywodraeth Cymru ddechrau proses datblygu polisi yn ymateb synhwyrol ar hyn o bryd.

Nid yw'r grŵp wedi ystyried na gwneud argymhellion ar rinwedd cynhenid, manteision, costau neu risgiau'r bwriad polisi ac mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn asesiad archwiliol yn hytrach na chynhwysfawr o'r materion a'r camau nesaf.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan is-grŵp o aelodau Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a phenodeion eraill, gyda chylch gwaith i weithio tuag at gonsensws, drwy gydweithredu a chyfaddawdu. Nid yw'n cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n adlewyrchu safbwyntiau annibynnol unrhyw barti neu sefydliad unigol. Trwy gydol y drafodaeth mynegwyd ystod o safbwyntiau ar bob elfen o'r adroddiad.

Yn olaf, mae'r is-grŵp o'r farn bod mwy i'w archwilio wrth ddatblygu'r cynigion polisi nag y gellid ei ystyried yn yr amser a ddyrannwyd ar gyfer yr is-grŵp.

Dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ystyried ymgysylltu parhaus, ac ailgynnull y grŵp o bosibl, yn nhymor y Senedd newydd.

Hoffai aelodau'r grŵp ddiolch i'r rhai a gymerodd yr amser i roi tystiolaeth.

**Argymhellion**

A1: Dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion polisi ymhellach yn nhymor y Senedd newydd.

A2: Wrth wneud cynigion polisi, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r manteision, y risgiau a'r effaith ar yr economi, busnesau Cymru, y farchnad lafur, a gweithwyr yng Nghymru a ragwelir.

A3: Wrth wneud cynigion polisi i gryfhau gwaith teg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y fframwaith polisi ehangach, ac archwilio mesurau i gefnogi ac annog cyrhaeddiad cynrychioliadol ehangach partneriaid cymdeithasol.

A4: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhyngweithio rhwng elfennau gwaith teg a gwneud yn glir y blaenoriaethau gan archwilio lle byddai cymhelliant yn briodol.

A5: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio trothwyon isaf sy'n gymesur, yn glir ac yn gyson ar draws cynlluniau grant.

A6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau ar gyfer mynediad undebau llafur a chontractau dim oriau sy'n ategu darpariaethau Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025.

A7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darpariaethau Fair Work First fel man cychwyn ar gyfer datblygu cynigion polisi ar y Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Adran A: Cyfansoddiad a Chylch Gwaith**

Cafodd yr Is-grŵp ar Grantiau Gwaith Teg mewn Busnes ei sefydlu yn dilyn cytundeb y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch cefnogi gwaith teg drwy gyllid grant Llywodraeth Cymru.

Roedd y trafodaethau hynny yn canolbwyntio ar elfennau o amodoldeb a strategaethau ategol i gryfhau canlyniadau gwaith teg yn sgil grantiau i fusnesau ar y sail bod gwerthusiad o'r rhaglen Contract Economaidd gyfredol wedi'i gychwyn, gyda chyflwyno unrhyw argymhellion ehangach i gael ei ystyried maes o law.

Gwnaed cynigion ar gyfer cylch byr o chwe chyfarfod, wedi'i rannu'n gyfarfod cychwynnol (1 cyfarfod), cymryd tystiolaeth (2 gyfarfod) a thrafod polisi (2 gyfarfod). Gyda chyfres gyfyngedig o gyfarfodydd, roedd pwrpas y grŵp yn canolbwyntio ar elfennau penodol o amodoldeb:

- talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'i pennir gan y Living Wage Foundation.
- mynediad undebau llafur i fusnesau; gan hefyd ystyried
- mesurau diogelu ynghylch defnyddio Contractau Dim Oriau (neu NGHAs)

Prif bwrpas yr adroddiad yw:

- darparu amlinelliad o adborth partneriaid cymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ei gytuno a'i gymeradwyo i Lywodraeth Cymru ynghylch elfennau amodol mewn cyllid grant i fusnesau;
- cynghori ar y camau nesaf y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth wneud penderfyniad polisi.

Nodir y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ymyriadau ehangach y tu allan i gwmpas yr is-grŵp.

Mae'r papurau cychwynnol wedi'u hatodi yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**. Mae'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno gan yr is-grŵp wedi'i atodi yn **Atodiad C** ac yn nodi mai swyddogaeth y grŵp yw cydweithio i:

- adolygu'r dull presennol o waith teg mewn grantiau busnes Llywodraeth Cymru, fel y'i cyflawnir drwy'r Contract Economaidd.

- ystyried dull ystyrlon ac effeithiol o hyrwyddo grantiau gwaith teg mewn busnes Llywodraeth Cymru sy'n rhesymol ac yn gymesur, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amodoldeb, ac sy'n ymwybodol o'r amgylchedd polisi a rheoleiddio ehangach.

- gwneud argymhellion i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol eu hystyried wrth roi cyngor i Weinidogion Cymru.

Mae'r cylch gorchwyl yn cydnabod bod partneriaid cymdeithasol, cyd-gadeiryddion ac aelodau eraill yn gweithredu gyda gallu cynrychioliadol eu haelodaeth a dealltwriaeth bod partneriaeth gymdeithasol yn dod â disgwyliad o gonsensws a chyfaddawdu.

Mae’r adroddiad hwn yn ganlyniad i’r sgyrsiau hynny, ac, felly, wedi’i ddylanwadu gan fuddiannau rhanddeiliaid ond ni ddylid ei ystyried yn farn unrhyw randdeiliad unigol.

Cyfeirir at fanylion aelodaeth yn y Cylch Gorchwyl yn Atodiad C. Yn ystod tymor yr is-grŵp nodwch fod y newidiadau canlynol i aelodaeth wedi digwydd:

- Josh Miles (FSB) yn cymryd lle Ben Cottam fel aelod o’r is-grŵp,
- Ymddiswyddodd Peter Hughes fel Cyd-gadeirydd a phenodwyd Shavanah Taj yn ei le,
- Roedd pob aelod yn gallu enwebu dirprwy i fynychu yn ei absenoldeb.

**Adran B: Y cyd-destun**

**1. Cefndir**

Bu trafodaethau'r is-grŵp yn archwilio cyfeiriad a chyfyngiadau ysgogiadau polisi gwaith teg Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o lywio polisi o fewn set o fesurau diogelu y cytunwyd arnynt ar gyfer y camau nesaf yn y broses datblygu polisi. Roedd yr is-grŵp yn cydnabod y bydd angen i'r llywodraeth ddatblygu cynigion ac ail gynnwys partneriaid cymdeithasol yn nes ymlaen.

Mae'r is-grŵp yn nodi bod Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chyflogwyr ac undebau llafur yn y sector cyhoeddus, trwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu fel arfer, wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i fabwysiadu ar draws y sector cyhoeddus gan ddechrau gyda GIG Cymru (2014), awdurdodau lleol (2018) a'i ymestyn i weithwyr gofal cymdeithasol (2022) yn fwy diweddar, ochr yn ochr â naratif sy'n annog mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol gan bob cyflogwr sy'n gallu fforddio gwneud hynny. Mae ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yn un o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol.

- Yn dilyn comisiwn 2015 i ddeall ble roedd contractau dim oriau yn cael eu defnyddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, cyhoeddwyd canllawiau (yn 2016) i sicrhau triniaeth deg ac adolygiadau contractau rheolaidd gyda chyfraniad undebau llafur. Yn 2017, cafodd rheoliadau sector eu gweithredu ar draws gofal cartref a oedd yn gofyn am adolygiadau ar ôl 12 wythnos a newid contract o bosibl. Mae datganiadau olynol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried contractau dim oriau yn ansicr ac y gallent fod yn camfanteisio ar bobl, gan bwysleisio na ddylid eu defnyddio'n amhriodol na'u gosod yn unochrog a bod rhaid i weithwyr gael rhybudd teg o newidiadau mewn shifftiau, enillion rhagweladwy, a mynediad at hawliau cyflogaeth safonol. Mae nifer y gweithwyr a gyflogir ar gontractau parhaol yn nodwedd o'r un dangosydd llesiant cenedlaethol ehangach sy'n gysylltiedig â gwaith â'r un sy'n cyfeirio at y Cyflog Byw Gwirioneddol.

- Mae cydnabyddiaeth undebau llafur wedi ennill ei phlwyf ar draws y sector cyhoeddus, ac mae Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi creu fforymau penodol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol rhwng cyflogwyr, y llywodraeth ac undebau llafur gan ddechrau gyda'r fforwm y gweithlu a ddatblygodd i fod yn Gyngor Partneriaeth y Gweithlu (2012). Mae Llywodraeth Cymru wedi datgymhwyso cyfyngiadau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar weithredu diwydiannol mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a chyflwyno Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol. Mae Cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg wedi'i sefydlu, a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2025 wedi cyflwyno dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus i gynnwys undebau yn amcanion llesiant a phenderfyniadau strategol Llywodraeth Cymru. Yn 2021 diweddarodd Llywodraeth Cymru 'Partneriaeth a Rheoli Newid' - cytundeb partneriaeth gymdeithasol allweddol gydag undebau llafur a chyflogwyr, sy'n pennu egwyddorion ar gyfer rheoli newid mewn gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd, gan bwysleisio tegwch, ymgynghori, cynllunio'r gweithlu, a pharhad, gan gyd-fynd â nodau gwaith teg a fframwaith *Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru*.

- Mae sawl cytundeb arall wedi'i wneud ar draws y sector cyhoeddus ac mae gan Lywodraeth Cymru ddangosydd llesiant cenedlaethol ar gyfer cyfran y gweithwyr y mae eu cyflog yn cael ei osod drwy fargeinio ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo undebau llafur fel y ffordd orau y gall gweithwyr wella tâl, amodau a thelerau a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, tra bod cyflogwyr sy'n gweithio gydag undebau llafur yn dod â manteision symleiddio prosesau negodi, datrys materion yn gynnar, mynd i'r afael â phryderon iechyd a diogelwch, a chynorthwyo gyda hyfforddiant a datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwaith teg wrth wraidd ei huchelgeisiau economaidd a chymdeithasol, gan ei fframio'n gyson fel un hanfodol i greu Cymru decach, fwy diogel a llewyrchus. Disgrifir gwaith teg fel rhywbeth sydd 'wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu' ac fe'i dyrennir fel cyfrifoldeb ar y cyd i'r holl Weinidogion, gan adeiladu ar adroddiad 'Gwaith Teg Cymru' gan y Comisiwn Gwaith Teg a gyhoeddwyd yn 2019.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried unrhyw gyd-destun hanesyddol ac ymrwymiadau'r llywodraeth ar waith teg yn ymhellach, ond fe'u nodir yma fel ffordd bragmatig o fframio'r hyn mae partneriaid cymdeithasol yn ei ddeall am sefyllfa bolisi Llywodraeth Cymru a chyflawni canlyniadau gwaith teg.

## 2. Tystiolaeth

Mae'r is-grŵp yn ddiolchgar i Lywodraeth yr Alban ac i'r tîm gwerthuso Contract Economaidd am roi o'u hamser i baratoi cyflwyniadau a darparu tystiolaeth hollbwysig i'r grŵp ei hystyried.

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol y sesiynau tystiolaeth a ddarparwyd gan dîm polisi Fair Work First Llywodraeth yr Alban a thîm gwerthuso Contract Economaidd Llywodraeth Cymru. Ei nod yw llywio trafodaeth am fodel gwaith teg cryfach i Gymru, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion gwaith teg sefydledig ac uchelgeisiau gwerth cymdeithasol ehangach.

### 2(a) Fair Work First

*Gweledigaeth, pwrpas ac effaith*

Dilynodd polisi gwaith teg yr Alban amcan cyffredinol gan Lywodraeth yr Alban i ddod yn Genedl Gwaith Teg erbyn 2025. Diffinnir Gwaith Teg fel gwaith sy'n cynnig llais, cyfle, diogelwch, cyflawniad a pharch effeithiol. Mae'r polisi yn ceisio gwella cynhyrchiant, dulliau recriwtio, cadw a llesiant trwy arferion cyflogaeth gwell.

Defnyddir cyllid y sector cyhoeddus i ysgogi arferion gwaith teg, gan gynnwys:

- Talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Mecanweithiau llais effeithiol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gydnabod undebau llafur sy'n cael ei ystyried yn arfer orau).
- Buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu.
- Dim defnydd amhriodol o gontractau dim oriau.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithle

- Cynnig arferion gweithio hyblyg ac ystyriol o deuluoedd.
- Gwrthwynebu arferion diswyddo ac ailgyflogi.

Yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer gwaith yr is-grŵp, mae amodoldeb yn cael ei gymhwyso i grantiau a chaffael. Rhaid i sefydliadau ddangos cydymffurfiaeth â'r meini prawf Cyflog Byw Gwirioneddol a llais effeithiol. Dim ond gyda thystiolaeth o fforddiadwyedd y caniateir eithriadau.

Fel y rhaglen Contract Economaidd, mae polisi 'fair work first' yr Alban yn destun gwerthusiad ar hyn o bryd, a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf. Mae'r is-grŵp yn disgwyl y bydd gwerthusiadau o'r polisi a'r Contract Economaidd yn llywio datblygiad polisi y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Er y bydd gwerthuso Fair Work First yn wybodaeth ychwanegol ddefnyddiol yn y cyflwyniad, dywedodd Llywodraeth yr Alban fod arwyddion o gynhyrchiant a chymorth busnes gwell i'r cynllun.

Mae dros £2.6bn o grantiau cyhoeddus wedi bod yn destun amodoldeb Fair Work First (Gorff 2023–Mawrth 2024). Mae'r Alban yn arwain y DU o ran mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Bydd gwerthusiad yn asesu cyflawniad, effaith a gwersi a ddysgwyd.

### 2(b) Crynodeb o werthusiad Contract Economaidd Llywodraeth Cymru

*Trosolwg*

Mae'r Contract Economaidd wedi'i ategu gan yr egwyddor 'rhywbeth yn gyfnewid am rywbeth', lle disgwylir i fusnesau sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru ddangos eu cyfraniad at nodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Ers ei ailwampio ym mis Ionawr 2022, mae dros 600 o Gontractau Economaidd wedi'u rhoi, gan gynnwys 150 yn y cyfnod diweddaraf (Ebrill 2024–Mawrth 2025). Mae'r Contract hefyd wedi'i ymestyn i feysydd busnes newydd dros y cyfnod hwnnw, gan ymestyn cyrhaeddiad gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau cymorth busnes.

Mae pecyn cymorth sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi cymhwyso egwyddorion y Contract Economaidd. Ystyriwyd adroddiad gwerthuso canol tymor gan yr is-grŵp gyda disgwyl adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Contract Economaidd wedi'i ymgorffori yn y Genhadaeth Economaidd (2021) a'r Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach (2023), sy'n pwysleisio gwaith teg, cynaliadwyedd, datgarboneiddio, partneriaethau rhanbarthol cryfach, a phlatfformau ieuenctid ar gyfer datblygu sgiliau.

Mae busnesau'n gwneud addewidion datblygu sy'n cyd-fynd â'r pedair colofn (gan gynnwys gwaith teg) ar draws ystod o gynlluniau grant i fusnesau.

### Canfyddiadau perthnasol allweddol o'r gwerthusiad

Mae'r adroddiad gwerthuso interim yn awgrymu bod y cynllun yn cael ei gefnogi'n eang gan fusnesau ac wedi ennill ei blwyf ym mholisi Cymru. Mae'n awgrymu bod y Contract Economaidd yn cydnabod arferion da presennol yn fwy na llywio

ymddygiadau newydd, ac y gallai fod mwy o eglurder ym mhwrpas y rhaglen rhwng darparu sicrwydd ynghylch arferion busnes a newid ymddygiad busnes.

**Argymhellion**

Argymhellion newydd sy'n arbennig o berthnasol i'r is-grŵp:

- Dylid egluro pwrpas y rhaglen er mwyn naill ai darparu sicrwydd am arferion busnes cyfrifol neu ysgogi newid ymddygiad busnes.
- Dylid ei chysoni ymhellach â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.
- Dylai'r rhaglen dargedu busnesau mwy a grantiau gwerth uwch.

**Gwahaniaethau cymharol rhwng Fair Work First a'r Contract Economaidd**

Isod mae crynodeb byr o'r gwahaniaethau cymharol rhwng y dulliau presennol sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru a'r Alban:

| **Nodwedd** | **Yr Alban: Fair Work First** | **Cymru: Contract Economaidd** |
|---|---|---|
| **Amodoldeb** | Oes - Yn gyson a gorfodol ar gyfer grantiau a chaffael | Nac oes – cytundeb pwrpasol gyda'r busnes sy'n cael ei gymhwyso i rai cynlluniau grant. |
| **Monitro** | Cymeradwyaeth y gweithlu, gofyniad adrodd | Monitro cyfyngedig ar ôl cytundeb. |
| **Cwmpas** | Pwyslais ar arferion cyflogaeth | Ehangach (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol) |
| **Brandio** | Hunaniaeth ac arweiniad cryf | Argymell diwygio'r brand wrth werthuso |
| **Effaith** | Tystiolaeth o gynnydd o safbwynt bylchau cyflog, Cyflog Byw Gwirioneddol | Tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn ategu arferion da presennol |

**2(c) Y Dirwedd Polisi a Deddfwriaeth yng Nghymru**

Mae'r Genhadaeth Economaidd (a gyhoeddwyd yn 2021) yn cynnwys ymrwymiad i esblygu, ehangu a chryfhau'r Contract Economaidd wrth geisio sicrhau gwerth cymdeithasol, gan bwysleisio ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad allweddol y rhaglen lywodraethu i '*gryfhau ein contract economaidd.'*

Yn ogystal, mae dau nod llesiant cysylltiedig, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n pwysleisio gwaith teg, cynaliadwyedd, ac economi gryfach a gwyrddach wrth wneud cynnydd tuag at ddatgarboneiddio a dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur cynnydd yn erbyn nodau Llesiant.

Yn yr hydref y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach,' i ddiweddaru'r genhadaeth economaidd yn unol â'n hamgylchiadau ariannol ac economaidd presennol. Mae'r pedair blaenoriaeth genedlaethol a nodwyd yn y papur yn pwysleisio pontio teg a ffyniant gwyrdd; platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant; partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach; a thwf.

Yn olaf, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn deddfu ar gyfer system o bartneriaeth gymdeithasol a Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol gyda chyfranogwyr sy'n cael eu penodi o dan y Ddeddf gan y Prif Weinidog, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr. Mae hefyd yn cyflwyno dyletswyddau caffael cymdeithasol cyfrifol newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ar drywydd llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol wrth wneud gwaith caffael - a cheisio cryfhau trefniadau caffael a llywio canlyniadau gwerth cymdeithasol o wariant cyhoeddus.

Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025 yn ailwampio cyfraith cyflogaeth y DU. Mae'n rhan o gynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU, sydd â'r nod o foderneiddio hawliau cyflogaeth, gwella diogelwch swyddi, a chodi safonau byw ledled y wladwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn eang iawn ac yn cynnwys tua 28 o fesurau ar agweddau gwahanol ar gyfraith cyflogaeth ac undebau llafur gan gynnwys hawl gryfach i fynediad ar gyfer undebau llafur a mesurau i gyfyngu ar arferion sy'n camfanteisio wrth ddefnyddio Contractau Dim Oriau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cefnogi canlyniadau economaidd a gwaith teg drwy sawl darpariaeth allweddol sy'n cyd-fynd â'i nod cyffredinol o ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r nod 'Cymru Lewyrchus' yn cefnogi canlyniadau economaidd a gwaith teg yn uniongyrchol drwy anelu at greu:

- Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel.
- Economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- Poblogaeth fedrus ac addysgedig.
- Amodau sy'n caniatáu i bobl sicrhau gwaith teg ac elwa ar y cyfoeth a gynhyrchir.

**2(d) Gofynion deddfwriaethol penodol**

Mae'r is-grŵp yn nodi darpariaethau penodol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2024 bod yn rhaid i'r holl aelodau gytuno ar wybodaeth a chyngor a gyflwynir i Weinidogion Cymru gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a

disgwyliadau ehangach bod yr is-grŵp yn gweithio tuag at gonsensws trwy gyfaddawdu.

Er bod yr is-grŵp wedi datblygu ei syniadau yn erbyn y fframwaith hwn, nid yw'r is-grŵp wedi ceisio cyngor cyfreithiol ac mae unrhyw ddyletswydd i fodloni gofynion cyfreithiol wrth ddatblygu polisi yn perthyn i Lywodraeth Cymru ac nid yr is-grŵp neu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

## Adran C: Casgliadau ac argymhellion

### 1. Argymhellion Strategol

Mae argymhellion sy'n ymwneud ag ystyriaethau polisi penodol wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf. Fel rhan o'r ystyriaeth strategol a'r broses o ddatblygu polisi, mae'r is-grŵp yn argymell:

### Y broses bolisi

Mae'r is-grŵp yn cydnabod hyrwyddo polisïau gwaith teg yn y tymor hwy yn bennaf trwy ymyrraeth yn y sector cyhoeddus thrwy gymhwyso'r polisïau i fusnesau sy'n cael cymorth grant drwy'r Contract Economaidd ers 2018.

Dylid parhau i gynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol os bydd y cynigion presennol ar gyfer ymyriadau gwaith teg cryfach yn cael eu datblygu yn nhymor y Senedd newydd. Dylai gwaith datblygu polisi gynnwys ymchwiliad pellach i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a ystyriwyd gan yr is-grŵp.

**A1: Dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion polisi ymhellach yn nhymor y Senedd newydd.**

Fel rhan o gyflwyniad gan y tîm gwerthuso'r Contract Economaidd, cafodd y defnydd o amodoldeb mewn gwledydd llesiant tebyg eraill, a gwledydd eraill, ei gyflwyno i lywio llunio polisïau yng Nghymru. Wrth fyfyrio ar ymchwil bellach ddefnyddiol, cynghorodd y grŵp y byddai mwy o gyfeiriad cyd-destunol am economïau gwledydd perthnasol yn ddefnyddiol. Ar ben hynny, gofynnwyd i'r tîm gwerthuso roi rhagor o wybodaeth am drefniadau amodol gwledydd tebyg sy'n canolbwyntio ar ymyriadau yn y farchnad lafur.

**A2: Wrth wneud cynigion polisi, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r manteision, y risgiau a'r effaith ar yr economi, busnesau Cymru, y farchnad lafur, a gweithwyr yng Nghymru a ragwelir.**

Roedd tystiolaeth gan y tîm gwerthuso yn cynnwys cyfeiriad at gyd-fynd ag amgylchedd partneriaeth gymdeithasol cryfach. Mewn trafodaeth yn y grŵp, roedd cefnogaeth i fwy o gydnabyddiaeth o'r amgylchedd polisi a statudol a swyddogaethau gwaith teg partneriaeth gymdeithasol. O'r trafodaethau hynny, cytunwyd y dylai cyfundrefn amgen gynnwys meddwl am y cyd-destun, gan gynnwys:

- lle dylid tynnu'r ymyriadau presennol yn ôl er mwyn sicrhau cysondeb, eglurder, symlrwydd ac osgoi ailadrodd,
- cysondeb a baich cyffredinol ar fusnesau gynlluniau a phenderfyniadau polisi cydamserol y tu allan i'r maes penodol hwn,
- mae cryfhau dilysrwydd a chyrhaeddiad canlyniadau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg wedi'i ategu gan lefelau uwch o aelodaeth undebau llafur a lefelau aelodaeth uwch yn sefydliadau masnach cynrychioliadol yng Nghymru.

**A3: Wrth wneud cynigion polisi i gryfhau gwaith teg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y fframwaith polisi ehangach, ac archwilio mesurau i gefnogi ac annog cyrhaeddiad cynrychioliadol ehangach partneriaid cymdeithasol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir ei bod yn ystyried cydnabyddiaeth undebau llafur yn fesur o amddiffyn gweithwyr ac yn ddangosydd allweddol o arferion cyflogaeth da, gan adlewyrchu datganiadau a wnaed yn Gwaith Teg Cymru (2019). Felly, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid datgymhwyso gofynion amodol pan fo undeb llafur yn cael ei gydnabod gan fusnes at ddibenion cyd-fargeinio.

**A4: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhyngweithio rhwng elfennau gwaith teg a gwneud yn glir y blaenoriaethau gan archwilio lle byddai cymhelliant yn briodol.**

Mae'r is-grŵp yn cydnabod y byddai cynigion ar gyfer amodoldeb yn cryfhau ymyriadau sy'n canolbwyntio ar waith teg. O'r herwydd, roedd y grŵp yn ystyried y dylid gosod trothwyon isaf clir ar gyfer eu cymhwyso yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus o resymolrwydd a chymesuredd.

Fe wnaeth y grŵp drafod trothwyon heb ddod i gasgliad pendant ond gan ddweud y dylai Llywodraeth Cymru wneud cynigion sy'n bodloni'r meini prawf gyda disgwyliad bod y rhain yn cyd-fynd â'r trothwyon deddfwriaethol presennol ar gyfer ymyrraeth. Er enghraifft, nodir bod trothwyon ar gyfer mynediad undebau llafur sy'n cael eu hystyried gan y grŵp wedi'u mabwysiadu yn ddiweddarach yn narpariaethau'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth.

Y tu hwnt i egwyddorion cyfraith gyhoeddus a chymhwyso trothwyon yn gymesur, mae'r is-grŵp yn cydnabod nad yw derbyn cymorth grant o reidrwydd yn broses ddeuaidd a thrafodol, ond yn ffrwyth meithrin perthynas rhwng y llywodraeth a busnesau yng Nghymru, sy'n debygol o ddechrau gyda chymorth nad yw'n gymorth grant, ond o bosibl symud i rywfaint o gymorth ariannol neu gyfeirio, ac yn arwain at gyllid grant mwy sylweddol. Cydnabyddir bod piblinell o gerrig milltir sy'n arwain at fuddsoddiad, ac angen cydbwysedd er mwyn sicrhau nad yw busnesau'n cael eu hatal rhag cyrchu cymorth grant oherwydd gofynion anghymesur.

**A5: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio trothwyon isaf sy'n gymesur, yn glir ac yn gyson ar draws cynlluniau grant.**

Mae'r is-grŵp o'r farn y bydd arferion monitro ac atebolrwydd grantiau yn gymwys i unrhyw amodau a gymhwysir i grantiau gan Lywodraeth Cymru ond nid yw wedi gwneud argymhellion pendant cyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi pellach.

## 2. Argymhellion penodol

Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r is-grŵp dan arweiniad swyddogaeth y grŵp i ystyried dull ystyrlon ac effeithiol o hyrwyddo gwaith teg mewn grantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau.

Mae'n canolbwyntio ar y cynigion penodol allweddol ar gyfer amodoldeb yn ymwneud â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, mynediad undebau llafur a chontractau dim oriau fel y cynigiwyd yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn y drafodaeth a arweiniodd at sefydlu'r is-grŵp.

*Mynediad undebau llafur a chontractau dim oriau.*

Mae'r papur undebau llafur cychwynnol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n gyson at gynrychiolaeth undebau llafur fel sbardun allweddol ac yn ddirprwy cryf ar gyfer arferion gwaith teg. Mae datganiadau amrywiol gan Lywodraeth Cymru yn ategu'r pwyslais polisi ar waith teg ac, o fewn gwaith teg, mae pwyslais arbennig ar gynrychiolaeth undebau llafur.

Dechreuwyd trafodaethau yn yr is-grŵp ar natur mynediad a'r diffiniad ohono, trothwyon, ymrwymiad amser, a threfniadau datgelu. Yn ystod trafodaethau, gwnaeth y fersiwn derfynol o'r Bil Hawliau Cyflogaeth, bellach y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth yn dilyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2025, gryfhau'r darpariaethau ar gyfer hawl i ofyn am fynediad, yn hawl mynediad.

Gan fod amser yn brin, dim ond trafodaeth gyfyngedig a gafwyd am gontractau dim oriau, ac roedd darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth wedi'u sefydlu cyn bod modd i'r grŵp drafod y mater.

Mae darpariaethau terfynol y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth yn adlewyrchu'r drafodaeth ar fynediad undebau llafur a ddechreuodd yn yr is-grŵp, a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus ar ddefnyddio contractau dim oriau. Felly, daeth yr is-grŵp i'r casgliad bod y gyfraith wedi'i diweddaru i gyd-fynd yn agos â'r uchelgais a nodir yn y papurau cychwynnol.

Yn dilyn hynny, dylai'r man cychwyn ar gyfer datblygu polisi ar fynediad undebau llafur a chontractau dim oriau fod yn gyfyngedig i gyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol newydd, yn enwedig am resymau eglurder a chysondeb.

Nodir bod hyn yn gadael materion gweddilliol, megis trefniadau datgelu ar gyfer mynediad undebau llafur, sy'n ymwneud ag amodoldeb ond nid â'r ddeddfwriaeth. Cafodd y grŵp rywfaint o drafodaeth gychwynnol am faterion gweddilliol ond nid digon i ddod i gasgliadau pendant.

**A6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau ar gyfer mynediad undebau llafur a chontractau dim oriau sy'n ategu darpariaethau Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025.**

*Cyflog Byw Gwirioneddol*

Cyfradd cyflog yr awr wirfoddol sy'n adlewyrchu gwir gostau byw yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'n cael ei osod gan y Living Wage Foundation ac mae'n wahanol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol statudol a bennir gan Lywodraeth y DU.

Mae'r gyfradd newydd, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref, yn £13.45 (5.83% yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ac mae'n cynnwys pob rhan o'r DU, ar wahân i Lundain sydd â chyfradd uwch. Mae gan gyflogwyr achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol chwe mis (hyd at 1 Mai 2026) i weithredu'r gyfradd newydd. Er cymhariaeth, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cynyddu i £12.71 ym mis Ebrill 2026.

Ar ôl cyhoeddi'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn parhau i fod yn faes polisi blaenllaw mewn trafodaethau am waith teg, sydd heb ei effeithio gan y ddeddfwriaeth newydd.

Yn 2024, fe wnaeth Llywodraeth bresennol y DU ddiweddaru'r canllawiau i'r Comisiwn Cyflogau Isel (LPC) gan gyhoeddi meini prawf diwygiedig y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth wneud argymhelliad ar gyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Mae'r meini prawf sydd wedi'u diweddaru yn cynnwys gofyniad penodol i gynnwys mynegeion costau byw, gyda 'llawr caled' o ddwy ran o dair o incwm canolrifol, a chynlluniau i gael gwared ar fandiau oedran sy'n berthnasol i oedolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd y Cyflog Byw Gwirioneddol fel gwerth craidd cyflog teg a'r uchelgais y dylai fod yn sail ar gyfer cyflogau yng Nghymru. Mae'r cefndir ar ddechrau'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y camau a gymerwyd i wella cwmpas y Cyflog Byw Gwirioneddol lle mae trosoledd yn bodoli ar draws y sector cyhoeddus.

Daeth yr is-grŵp i'r casgliad bod darpariaethau Fair Work First Llywodraeth yr Alban yn fan cychwyn synhwyrol a phragmataidd, er bod ystod o safbwyntiau wedi codi mewn trafodaethau.

Ymhlith y materion allweddol a godwyd i'w hystyried wrth ddatblygu'r polisi yn gyffredinol roedd yr effaith gyffredinol mewn amgylchedd o fwy o reoleiddio a'r gost gynyddol o wneud busnes.

Nodwyd yr effaith ar fusnesau llai a gwahaniaethau cyflog rhwng busnesau fel meysydd y byddai angen eu hystyried. Ochr yn ochr â hyn, dylid ystyried manteision hirdymor isafswm cyflog uwch a gwell amodau gwaith. Fe wnaeth trafodaeth ar y Cyflog Byw Gwirioneddol ysgogi myfyrio ar y drafodaeth ynghylch gwerthuso'r Contract Economaidd a'r cais a wnaed i'r tîm gwerthuso i ychwanegu cyd-destun economaidd at yr adroddiad ochr yn ochr â dulliau amodoldeb. Mae'r grŵp yn nodi bod tebygrwydd cyfansoddiadol rhwng setliadau datganoli yn yr Alban a Chymru sy'n cynnig atebion tebyg, ond bod gwahaniaethau allweddol hefyd yn economïau'r ddwy genedl.

**A7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darpariaethau Fair Work First fel man cychwyn ar gyfer datblygu cynigion polisi ar y Cyflog Byw Gwirioneddol.**

# Atodiad A: Papur TUC Cymru i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (Gorffennaf 2024)

**Defnyddio cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i sicrhau gwaith teg: cam nesa'r polisi gwaith teg**

## Mater

1. Darparwyd y papur hwn gan TUC Cymru ar ran ochr cynrychiolwyr y gweithwyr.

2. Pwrpas y papur yw datblygu'r polisi sydd y tu ôl i ymrwymiad Llywodraeth Cymru "i ddefnyddio pob dull ysgogi [sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a galluogi gwaith teg, ymdrin ag achosion o gamfanteisio ar weithwyr a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern."

3. Mae'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi creu polisi yn y maes hwn, gan gynnwys y Contract Economaidd, canllawiau ar waith teg, gwaith ar gaethwasiaeth fodern, trefniadau partneriaeth gymdeithasol y sector, a diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cefndir

4. Mae partneriaid yn yr Undebau Llafur yn cydnabod nad yw'r gallu i ysgogi canlyniadau penodol o gaffael sy'n mynd y tu hwnt i'r isafswm gofynion statudol yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn credu y gallai ei orfodi'n gyfreithiol. Rydym er hynny yn deall bod llawer llai o gyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei fandadu o ganlyniad i gyllid grant ac felly rydym yn rhagweld mai dyma le bydd y meini prawf gwaith teg mwyaf uchelgeisiol yn cael eu cyflwyno.

5. Mae meini prawf hefyd y gellid eu cyflwyno nad oes angen gwariant ychwanegol ar eu cyfer, ond sy'n ceisio lleihau'r risg y bydd cyllid cyhoeddus yn y pen draw yn cyrraedd cyflogwyr nad ydynt yn cynnal hawliau dynol sylfaenol, gan gynnwys hawliau llafur, ac y dylai fod o leiaf set sylfaenol o feini prawf gwaith teg sy'n berthnasol ar draws caffael a chyllid grant.

6. Mae'r papur hwn yn cynnig sut y gall y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol arwain cam nesaf y polisi gwaith teg, fel bod cam i fyny o ran gweithredu'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi dull tri cham, gan ddechrau gyda'r 'llinellau coch' y dylid eu cyflwyno ar draws yr holl wariant cyhoeddus datganoledig fel meini prawf contractiol i gyfyngu ar y risg y bydd gwariant cyhoeddus yn mynd tuag at arferion llafur camfanteisiol.

7. Byddai gwneud yr amodau syml, rhad ac am ddim hyn yn ofyniad o bob gwariant cyhoeddus ar draws Llywodraeth Cymru (yn yr ystyr ehangaf, gan gynnwys cyrff datganoledig a sefydliadau hyd braich, fel Banc Datblygu Cymru) yn gam cyntaf o ran cyflawni'r ymrwymiad polisi 'pob dull ysgogi' a wnaed gan Lywodraeth Cymru, a gallai'r camau nesaf edrych ar sut i ddileu contractau sy'n camfanteisio (yn enwedig contractau dim oriau) mewn gweithleoedd sy'n elwa ar fuddsoddiad cyhoeddus.

**Cam nesaf polisi Gwaith Teg**

8. Mae'r papur hwn yn ceisio dechrau'r broses o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynhyrchu cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut y gellir cyflawni elfen 'gwaith teg' Nod 'Cymru Lewyrchus' yn fwy effeithiol, a sut mae angen dull gweithredu llywodraeth gyfan i wneud hyn.
9. Mae'n argymell mai cam cyntaf y broses o sicrhau bod polisi gwaith teg yn cael ei gymhwyso'n gynhwysfawr yw creu 'llinellau coch' ar ffurf rhwymedigaethau contractiol ar gyfer gwariant cyhoeddus. Bydd hynny'n dechrau gwireddu'r ymrwymiad i "ddefnyddio pob dull ysgogi [sydd gan Lywodraeth Cymru] i hyrwyddo a galluogi gwaith teg, ymdrin ag achosion o gamfanteisio ar weithwyr a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern."
10. Yr ail gam yw ehangu a safoni'r defnydd o'r Contract Economaidd fel porth i gyllid cyhoeddus, gan nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflog, math o gontract ac arferion cyflogaeth eraill sy'n gwneud gwaith yn decach Bydd yn cael ei ysbrydoli gan ddull Fair Work First a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban, sy'n gorfodi rhai arferion cyflogaeth (fel talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol) drwy gyllid grant gan y llywodraeth. Ochr yn ochr â hyn, mae partneriaid sy'n Undebau Llafur yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar lafur - gan gynnwys pa sectorau a galwedigaethau y mae'n fwy cyffredin ynddynt a sut mae'n edrych - yn cael ei chodi ar draws y llywodraeth, a bod y dysgu hwn yn cael ei ymgorffori yn y dull Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol. Trwy sefydlu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth o sut olwg sydd ar gamfanteisio ar lafur yng Nghymru, gan gynnwys pwy sydd mewn mwy o berygl, yn seiliedig ar nodweddion unigolion, sectorau, rolau a daearyddiaeth, yn ogystal â sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn strwythurol, gall Llywodraeth Cymru weithredu dull sy'n seiliedig ar risg ym mhob gwaith sydd â chanlyniadau i'r gweithlu.
11. Y **trydydd cam** yw i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol adolygu'r broses weithredu, gan ddeall sut mae pob rhan o'r llywodraeth yn cyflawni mewn perthynas â gwaith teg. Mae partneriaid sy'n Undebau Llafur yn gwybod bod data eisoes yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol perthnasol, ac mae data'r farchnad lafur yn cael ei ddadansoddi a'i gasglu'n rheolaidd. Byddai'r adolygiad hwn yn canolbwyntio mwy ar glywed gan swyddogion mewn gwahanol adrannau sy'n fwy tebygol o effeithio ar weithwyr sydd mewn mwy o berygl o gamfanteisio (er enghraifft, adeiladu), i ddeall y camau y maent yn eu cymryd yn eu hadran i gyflawni'r nod polisi gwaith teg, a chryfhau perthnasoedd â phartneriaid cymdeithasol.

12. Mae partneriaid sy'n Undebau Llafur yn awgrymu'r dull graddol hwn gan fod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ei ddyddiau cynnar, ac mae pob ochr yn awyddus i'w weld yn cael effaith gyflym. Felly, yn hytrach na mynd i'r afael â hyn fel adolygiad hir o bolisi gwaith teg yn gyffredinol, mae'r camau hyn yn nodi sut y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i ddefnyddio 'pob dull ysgogi' a rhoi'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol mewn sefyllfa i gynghori ar gynnydd graddol.

<u>**Llinellau coch**</u>

13. Yn gyntaf, bydd angen i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ystyried sut mae polisi gwaith teg yn lleihau'r risg o gamfanteisio ar lafur o ganlyniad i wariant cyhoeddus, cyn y gallwn ystyried sut i godi safonau cyflogaeth drwyddo.

14. Bydd 'llinellau coch' contractiol yn sicrhau bod cyflogwyr sy'n agored elyniaethus i gadw at hawliau llafur sylfaenol yn cael eu hatal rhag cymryd arian cyhoeddus, a bod llwybr i adfachu cyllid os yw cyflogwr yn torri cyfraith cyflogaeth.

15. Nid y Contract Economaidd yn ei ffurf bresennol yw'r dull ysgogi cywir ar gyfer y 'llinellau coch' yr ydym yn eu cynnig gan nad yw'n gysylltiedig ag *amodau* cyllid grant, nid yw'n cael ei ddefnyddio gan holl adrannau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl gyllid grant, cafwyd nifer o iteriadau ohono ac mae'r geiriad yn gymharol amwys, ac mae'n *drefniant dwyochrog* rhwng y llywodraeth a chyflogwr. Mae partneriaid sy'n Undebau Llafur yn cydnabod ei fod yn borth i gael gafael ar gyllid, ac y gall fod yn ddull eithaf dwys o ran adnoddau gan ei fod yn mynd y tu hwnt i'r prif feini prawf ac yn ceisio gweithio gyda busnes i wella arferion penodol, ond nid ydym yn hyderus y byddai byth yn arwain at gyflogwr yn methu cael gafael ar arian cyhoeddus.

16. Yn hytrach, ffordd graidd o reoli'r risg o gamfanteisio ar lafur o wariant cyhoeddus a nodi i gyflogwyr na fydd y llywodraeth yn ei oddef mewn sefydliadau y mae ganddynt drefniant ariannol â hwy yw **nodi yn benodol** y byddai achos o dorri cyfraith cyflogaeth y gellir ei brofi neu wrthod caniatáu mynediad i undebau llafur i weithwyr yn cael ei ystyried yn dor-cytundeb, ac felly gallai arwain at derfynu contract neu adfachu cyllid. Dylai hyn gael ei ddefnyddio ar draws Llywodraeth Cymru fel arfer safonol a pheidio â chael ei ystyried fel meini prawf y gall cyflogwr eu trafod – <u>mae hon yn llinell goch o ran arian cyhoeddus yng Nghymru.</u>

17. Mae contractau ariannu eisoes yn cynnwys cyfeiriad at weithgarwch anghyfreithlon fel amod:

    a. *(d) Ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd a allai ddwyn anfri arnom yn ein barn ni, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ... (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon.*

    b. Byddai hyn yn ehangu ar hyn i nodi bod tor-cyfraith cyflogaeth yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn arbennig o bryderus amdano a

byddai'n arwain at ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r trefniant contractiol sydd gan y cyflogwr gyda Llywodraeth Cymru.

18. Nid oes cost ynghlwm â datganiad y byddai cyflogwr yn caniatáu ac yn galluogi mynediad i undebau llafur i'r gweithlu, ac mae'n arwydd nad yw cyflogwr yn elyniaethus i undebau. Mae gwrthod ymrwymo i hyn yn arwydd clir bod cyflogwr yn ceisio rhwystro eu gweithlu rhag cael mynediad i'w hawliau llafur sylfaenol, felly ni allwn ddychmygu bod hyn yn rhwystr i unrhyw gyflogwr y byddai Llywodraeth Cymru am iddo dderbyn arian cyhoeddus. Gellid datblygu diffiniad mwy manwl, defnyddiadwy o 'fynediad i undebau llafur' i wneud hyn yn ystyrlon trwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

19. Mae partneriaid sy'n Undebau Llafur yn argymell bod y cam cyntaf yn cael ei weithredu ar frys, fel bod sail ar gyfer meini prawf 'gwaith teg' cyffredinol ar draws gwariant cyhoeddus. Rhaid i hyn gyrraedd pob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, cyrff cyllido a phob adran.

**Er mwyn cyflawni hyn, mae angen creu:**

20. Set o feini prawf llinell goch a fydd yn berthnasol i bob gwariant cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr o leiaf ymrwymo i gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth (fel y gall achos o dor-cytundeb y gellir ei brofi arwain at dynnu contract yn ôl) a mynediad i undebau llafur fel amod contract.

**Gofynnir i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gytuno i weithio ar y tri cham a nodir yn y papur hwn i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni cam nesaf y polisi gwaith teg, ac i gynghori bod y meini prawf 'llinell goch' a nodir yn y papur hwn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet gyda'r cyngor i sicrhau y daw'n bolisi Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl..**

## Atodiad B: Papur y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn galw'r Is-grŵp (Medi 2024)

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol | Social Partnership Council

**Eitem 3 ar yr Agenda - Gwella gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru**

| **Angen penderfyniad**<br><br>Gofynnir i aelodau:<br><br>**I.** gytuno y dylai mesurau i hyrwyddo gwaith teg drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru i fusnesau gael eu hystyried gan bartneriaid cymdeithasol.<br>**II.** penderfynu a ddylid sefydlu Gweithgor o'r Cyngor at y diben a ddisgrifir yn 1, neu a fyddai trefniadau ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol mewn Polisi Economaidd yn well. |
|---|

### Mater

1. Papur i lywio'r camau nesaf ac ymateb i gynigion ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu mesurau i wella gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

### Cefndir

2. Ym mis Gorffennaf fe wnaeth papur a gyflwynwyd gan TUC Cymru gynigion i sefydlu gweithgor i ystyried y defnydd o gymorth ariannol i sicrhau canlyniadau gwaith teg o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y cynigion yn cynnwys gofynion cytundebol fel amodau cyllid grant (a ddisgrifir fel 'llinellau coch'), ehangu a safoni'r Contract Economaidd, ac adolygiad o'i weithredu.

### Gwella Gwaith Teg

3. Byddai strwythur sy'n ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch gwella canlyniadau gwaith teg o'n cefnogaeth i fusnes yn gam nesaf amserol.

4. Mae meysydd pwnc a themâu a godwyd ym mhapur mis Gorffennaf y Cyngor yn cyd-fynd ag agweddau ar gomisiwn diweddar gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Contract Economaidd yn allanol, y cytundeb blaenllaw rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau a ariennir gan grantiau i gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol ac

amgylcheddol Cymru. Mae crynodeb o amcanion cyfredol y rhaglen ynghlwm yn Atodiad A fel gwybodaeth gefndir.

5. Mae adroddiad gwerthuso interim wrthi'n cael ei gwblhau ac ystyrir bod yr ymchwil wedi datblygu ddigon i lywio'r gwaith o gynllunio gwelliannau yn y rhaglen.

6. Mae'r comisiwn yn cynnwys asesiad o brosesau gweithredu ac adolygu, a chymhariaeth ryngwladol o'r hyn y mae llywodraethau tebyg eraill yn ei wneud i annog arferion busnes cyfrifol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddefnyddio amodoldeb. Bydd yr adroddiad interim terfynol yn dod i gasgliadau allweddol am y rhaglen bresennol ac yn gwneud argymhellion dros dro i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

7. Mewn ymateb bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir gwella'r rhaglen ac yn archwilio mwy o ffocws ar feysydd arwahanol sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau polisi, gan gynnwys canlyniadau gwaith teg, gweithredu a safoni.

**Cylch gwaith a chyfansoddiad y gweithgor**

8. Mae Adran 8 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn caniatáu i'r Cyngor sefydlu is-grwpiau perthnasol. Mae cylch gwaith a chyfansoddiad unrhyw is-grŵp yn fater i'r Cyngor.

9. Mae cynigion yn y papur hwn wedi'u cyfyngu i grantiau busnes Llywodraeth Cymru o fewn cylch gwaith y Contract Economaidd presennol, a ysgogwyd gan werthusiad o'r rhaglen gyfredol a'r cynigion a nodir ym mhapur TUC Cymru. Cydnabyddir bod hyn yn ymateb yn rhannol, ond nid yn llawn, i'r uchelgais ehangach a nodir yng nghyflwyniad y Cyngor ym mis Gorffennaf.

10. Gall y Cyngor benderfynu y dylid sefydlu gweithgor at y diben ehangach o roi cyngor i Weinidogion ynghylch gwella canlyniadau gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru neu wariant cyhoeddus. O dan yr amgylchiadau hynny, cynigir y trefnir gwaith yr is-grŵp i ystyried gwaith teg yn y cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i fusnesau, a gyflawnir ar hyn o bryd drwy'r Contract Economaidd, fel man cychwyn. Yna byddai'r cyngor yn llywio ymateb polisi'r Gweinidogion i werthuso'r Contract Economaidd.

11. Opsiwn gwahanol i weithgor y Cyngor fyddai ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau ac undebau llafur drwy wneud trefniadau drwy'r Is-adran Polisi Economaidd. Mae yna drefniadau hirsefydlog ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ar faterion polisi economaidd, ac efallai y byddai'n well gan aelodau'r Cyngor fod y materion hyn a ffurfio cyngor i Weinidogion wedi'u hintegreiddio yn y trefniadau hynny.

12. Mae sefydliadau sy'n ymwneud â materion polisi economaidd fel arfer wedi'u cynnwys yn Atodiad B at ddibenion hysbysu trafodaeth y Cyngor am aelodaeth is-grŵp.

13. Cynigir mai gweithgaredd cyntaf y Gweithgor fyddai ystyried adroddiad interim y gwerthusiad a thrafod y canfyddiadau a'r argymhellion gydag Old Bell 3 a Cwmpas, a gomisiynwyd i werthuso'r Contract Economaidd, ac awduron yr adroddiad interim.

14. Mae swyddogion ym maes polisi economaidd yn fodlon hwyluso gweithgor y Cyngor neu drefniant arall, ar faterion polisi economaidd, gan weithio gydag Ysgrifenyddiaeth y Cyngor.

15. Disgwylir adroddiad gwerthuso interim terfynol yn fuan ac mae'n debygol o fod o fewn unrhyw amserlen y byddai'r Cyngor yn dymuno ei sefydlu ar gyfer cylch cychwynnol o gyfarfodydd gweithgor.

**Cyfyngiadau**

16. Bydd angen ystyried trefniadau cymorth ariannol sydd y tu allan i gwmpas y papur hwn ar wahân. Pe bai is-grŵp yn cael ei sefydlu gyda phwrpas ehangach tebyg i'r un a amlinellir ym mharagraff 10, yna byddai'r Cyngor am ystyried rheoli aelodaeth a threfnu cynllun gwaith i sicrhau bod sefydliadau priodol a swyddogion Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan ym mhob maes polisi, ar yr adeg briodol.

**Gofynnir i aelodau:**

- **gytuno y dylai mesurau i hyrwyddo gwaith teg drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru i fusnesau gael eu hystyried gan bartneriaid cymdeithasol.**

- **penderfynu a ddylid sefydlu Gweithgor o'r Cyngor at y diben a ddisgrifir yn 1, neu a fyddai trefniadau ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol mewn Polisi Economaidd yn well.**

**Y camau nesaf**

17. Os yw aelodau'n cytuno y dylid sefydlu Gweithgor, yna y camau nesaf fyddai i'r Cyngor enwebu cadeirydd neu gyd-gadeirydd (un cynrychiolydd gweithwyr ac un cynrychiolydd cyflogwr yn eu tro) o blith ei aelodaeth. Yna byddai Ysgrifenyddiaeth yr SPC yn gweithio gyda'r cadeirydd/ion ar gyfansoddiad y gweithgor a'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A: Y Contract Economaidd

### Cefndir

Egwyddor sylfaenol y Contract Economaidd (y CE) yw ei fod yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cefnogi i greu sefydliadau cadarn sy'n cynnig lle deniadol i weithio.

Fel arfer, caiff ei hyrwyddo fel ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru wrth adeiladu economi llesiant mwy cydnerth a llewyrchus, ac a ddisgrifir yn aml fel ein dull 'rhywbeth ar gyfer rhywbeth'.

Trwy'r CE mae busnesau'n dangos y cyfraniad y byddant yn ei wneud i'r egwyddorion hyn ac mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r cymorth y bydd yn ei roi yn gyfnewid am hyn.

Ers 2019 y prif gyfrwng ar gyfer y Comisiwn yw'r Gronfa Dyfodol Economaidd (EFF), cronfa gyfun o gynlluniau grant ar draws cyllid cynhyrchu creadigol, arloesedd, twristiaeth a chymorth craidd i BBaChau, ymhlith cynlluniau blaenllaw eraill. Lansiwyd yr EFF ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Economaidd (EAP). Roedd yr EAP wedi'i seilio ar egwyddor a ddisgrifiwyd fel buddsoddiad gyda phwrpas cymdeithasol. Nid yw'r Contract Economaidd wedi'i gyfyngu i'r cronfeydd hyn ac mae cynlluniau cymorth eraill yn defnyddio naill ai CE neu'n cymhwyso egwyddorion CE.

<u>Newidiadau rhaglen a pholisi mwy diweddar</u>

Yn 2021, yn sgil adfywio'r CE, cyflwynwyd enwau colofnau newydd gan ddod â mwy o siâp a chyfeiriad cyffredinol i'r polisi yn ymwneud â chynaliadwyedd economaidd, gwaith teg, datgarboneiddio a lles

Cyflwynwyd rhaglen ddatblygu yn gysylltiedig â'r adnewyddu gyda'r nod o ddatblygu a gwella ein defnydd o'r egwyddorion sy'n sail i'r Contract Economaidd. Roedd y camau nesaf a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen adfywio yn cynnwys gwerthusiad o'r rhaglen, a bwriad pellach o gryfhau'r trefniadau i gynnwys dangosyddion safonedig (neu fetrigau), gydag uchelgais tymor hwy i ymestyn y CE i feysydd newydd o gymorth busnes a datblygu elfennau cyffyrddiad ysgafnach i fod yn gymesur â gwahanol lefelau cymorth ac i gyfansoddiad busnes.

Mae pwyslais parhaus ar ddatblygu'r CE sy'n rhedeg drwy'r fframweithiau polisi sy'n dilyn yr EAP. Mae'r **Genhadaeth Economaidd** (a gyhoeddwyd yn 2021) yn cynnwys ymrwymiad i esblygu, ehangu a **chryfhau'r Contract Economaidd** wrth **geisio sicrhau gwerth cymdeithasol**, gan bwysleisio **ymgysylltiad â phartneriaid cymdeithasol**, sy'n gyson ag ymrwymiad allweddol y llywodraeth i'r rhaglen, hefyd i ***'gryfhau ein contract economaidd.'***

Yn ogystal, mae dau nod llesiant cysylltiedig, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n pwysleisio **gwaith teg, cynaliadwyedd**, ac **economi gryfach, wyrddach** wrth i'r cynnydd mwyaf gael ei wneud tuag at **ddatgarboneiddio** a'n dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur cynnydd yn erbyn ein nodau Llesiant.

Yn yr hydref y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **'Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach'**, i ddiweddaru'r genhadaeth economaidd yn unol â'n hamgylchiadau ariannol ac economaidd presennol. Mae'r pedair blaenoriaeth genedlaethol a nodwyd yn y papur yn pwysleisio pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd, llwyfan i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant, partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach, a thwf.

Yn olaf, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn deddfu ar gyfer system o bartneriaeth gymdeithasol a Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol gyda chyfranogwyr a benodwyd o dan y Ddeddf gan y Prif Weinidog sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau ac undebau llafur. Mae'n ceisio cryfhau trefniadau caffael a sbarduno canlyniadau gwerth cymdeithasol o wariant cyhoeddus hefyd.

**Atodiad B: Polisi economaidd ac ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol**

Rhestrir isod sefydliadau partner cymdeithasol sy'n cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan mewn materion polisi economi fel arfer:

**Grwpiau Busnes**

- CBI Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
- Make UK

**Undebau llafur**

- TUC Cymru
- Unite
- GMB
- Prospect
- Usdaw
- CWU
- Community

# <u>Atodiad C: Cylch Gorchwyl yr Is-grŵp</u>

**Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**

**Gweithgor y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: Gwaith Teg mewn Grantiau Llywodraeth Cymru i Fusnesau**

**Cylch Gorchwyl**

## 1. Cefndir

1. Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn gyfraith ar 24 Mai 2023 a sefydlodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SPC). Mae'r Ddeddf yn darparu bod aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i gynnwys:

   (a) aelodau o Lywodraeth Cymru ("aelodau Llywodraeth Cymru"),
   (b) 9 cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru ("cynrychiolwyr cyflogwyr"), ac
   (c) 9 cynrychiolydd gweithwyr yng Nghymru ("cynrychiolwyr gweithwyr").

1.1 Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn darparu cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol, ceisio cyflawni nod llesiant 'Cymru Lewyrchus' gan gyrff cyhoeddus a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn darparu arweinyddiaeth ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol a bydd yn helpu i ddiffinio sut mae disgwyl i bartneriaeth gymdeithasol weithredu o fewn cyd-destun datganoledig Cymru.

1.2 Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynwyd papur gan TUC Cymru a oedd yn cynnig y dylai gweithgor ystyried y defnydd o gymorth ariannol i sicrhau canlyniadau gwaith teg o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y cynigion yn cynnwys gofynion contractiol fel amodau cyllid grant, safoni'r Contract Economaidd, ac adolygiad o weithredu.

1.3 Cytunodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar egwyddorion y papur hwnnw, ond bod angen gwaith pellach. Trafodwyd papur dilynol ar 30 Medi lle cytunodd aelodau'r Cyngor i sefydlu gweithgor.

1.4 Bydd y Gweithgor yn cynnwys 8 unigolyn a enwebir gan bartneriaid cymdeithasol, i ddwyn ynghyd arbenigedd perthnasol a datblygu cyngor i Weinidogion Cymru ar hyrwyddo gwaith teg yng nghyllid grant Llywodraeth Cymru i fusnesau.

## 2. Diben

2.1 Mae'r Grŵp hwn yn cael ei sefydlu ar sail gorchwyl a gorffen a bydd y cynnydd yn cael ei adolygu ar ôl chwe mis - gall hyn newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

**Aelodaeth**

2.2 Bydd aelodaeth yn cael ei sefydlu gyda chynrychiolaeth gyfartal gan gyflogwyr ac undebau llafur. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r grŵp.

2.3 Bydd aelodau'n cael eu dewis o enwebiadau gan bartneriaid cymdeithasol yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a rhaid bod ganddynt arbenigedd yn y pwnc dan sylw.

2.4 Caiff y Grŵp, ar unrhyw adeg, gyfethol aelodau ychwanegol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd penodol o'r pwnc dan sylw yn ôl yr angen, a bydd yn ofynnol iddynt gael sêl bendith dynodedig i adlewyrchu barn a safbwyntiau'r grŵp cyfansoddol y maent yn ei gynrychioli.

2.5 Bydd o leiaf un aelod o bob ochr partner yn bresennol yn ystod cyfarfodydd i ganiatáu cytundeb ar benderfyniadau. Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio ar y cyd gan gynrychiolydd cyflogwr a chynrychiolydd undeb llafur sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Cydnabyddir bod pob cadeirydd yn cael ei dynnu o faes diddordeb y bydd yn ei gynrychioli yn ogystal â'i swyddogaethau yn cadeirio cyfarfodydd.

## 3 Ysgrifenyddiaeth

3.1 Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn trefnu ac yn gweinyddu pob cyfarfod.

3.2 Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn fformat hygyrch gan ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen ar aelodau i allu cymryd rhan ynghyd â chyngor y Llywodraeth.

3.3 Bydd amserlen o gyfarfodydd yn cael ei chytuno a bydd yr agenda ac unrhyw bapurau yn cael eu rhannu cyn y cyfarfod.

## 4 Swyddogaethau

4.1 Bydd gofyn i'r Aelodau weithio ar y cyd i:

- adolygu'r dull presennol o ymdrin â gwaith teg yng ngrantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau, fel y'i cyflawnir drwy'r Contract Economaidd.

- ystyried dull ystyrlon ac effeithiol o hyrwyddo gwaith teg yng ngrantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau sy'n rhesymol ac yn gymesur, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amodoldeb, ac sy'n ystyried yr amgylchedd polisi a rheoleiddio ehangach.

- gwneud argymhellion i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol eu hystyried wrth roi cyngor i Weinidogion Cymru.

## 5 Amlder

5.1 Bydd y Grŵp yn ceisio cyfarfod yn fisol. Bydd y Grŵp yn cael ei alw am gyfnod cychwynnol o chwe chyfarfod i'w gynnal ym mlwyddyn galendr 2025, cyn ei fod yn destun adolygiad gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

5.2 Bydd gwaith yn mynd rhagddo y tu allan i gyfarfodydd gydag aelodau yn ôl yr angen i gynnal cynnydd. Gellir cytuno ar benderfyniadau y tu allan i gyfarfodydd.

## 7 Trefniadau llywodraethu

7.1 Bydd y Grŵp yn rhoi diweddariadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gynnydd ac yn darparu dogfen adroddiad ddrafft i'r Cyngor ei hystyried. Os caiff ei chymeradwyo gan y Cyngor, bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i Weinidogion Cymru i gynghori ar y camau nesaf.

## 8 Gwrthdaro buddiannau, Cyfryngau

8.1 Bydd angen datgan unrhyw wrthdaro buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod. Mater i'r grŵp fydd penderfynu a yw datganiadau o'r fath yn atal aelod rhag cymryd rhan bellach yng ngwaith y grŵp. Gall dogfennau fod yn destun ceisiadau mynediad at wybodaeth a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Pan dderbynnir ceisiadau o'r fath, rhaid dilyn gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth safonol Llywodraeth Cymru.

8.2 Er mwyn hwyluso trafodaeth agored, bydd rhai dogfennau i'w trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor yn cael eu marcio fel 'Protect/Members Only' a byddant yn cael eu cyhoeddi i'w hystyried gan aelodau yn unig.

8.3 Rhaid i aelodau beidio â chysylltu â'r wasg neu gyfryngau eraill i drafod unrhyw fater 'cyfrinachol' sydd wedi'i nodi'n 'Protect/Members Only', na'i drafod mewn unrhyw gyd-destun lle gall ddod yn wybodaeth gyhoeddus neu ddod i sylw'r wasg/y cyfryngau, heb gysylltu ag ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru yn gyntaf.

8.4 Fodd bynnag, os bydd y wasg neu'r cyfryngau yn cysylltu ag aelod i ofyn ei farn am waith yr SPC a/neu bryderon polisi'r Is-grŵp, dylent ymateb fel a ganlyn: Os –

a. yw'r cwestiwn yn ymwneud â chadarnhau mater y mae'r aelod yn hyderus ei fod eisoes yn gyhoeddus, dylai gyfyngu ei sylwadau i wybodaeth ffeithiol. Ni ddylai roi barn ar y mater gan y gellid ystyried honno fel barn gyffredin yr SPC. Dylai hefyd roi gwybod i'r Prif Weinidog a'r ysgrifenyddiaeth am y sgwrs yn syth ar ôl iddi ddigwydd

b. os yw'r cwestiwn yn amlwg yn sensitif a gallai'n hawdd cyrraedd tudalennau blaen y cyfryngau, ni ddylai'r aelod wneud sylw a dylai gyfeirio'r newyddiadurwr yn uniongyrchol at y Prif Weinidog a'r ysgrifenyddiaeth;

c. os yw aelod yn gwneud sylwadau anfwriadol am yr SPC i rywun y mae'n sylweddoli yn ddiweddarach ei fod yn aelod o'r wasg neu o gyfryngau eraill, dylai hysbysu'r Prif Weinidog a'r ysgrifenyddiaeth cyn gynted ag y bo modd;

8.5 Ac eithrio yn dilyn cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru, ni fydd aelodau yn gwneud unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg yn rhinwedd eu rôl fel aelod o'r SPC. Bydd yr amodau hyn yn berthnasol yn ystod cyfnod eu penodiad.

**Atodiad 1**

**Aelodau'r gweithgor**

| Partner Cymdeithasol | Enw | Yn Cynrychioli |
|---|---|---|
| Cyd-gadeiryddion | Ben Cottam (FSB Cymru)<br>Peter Hughes (Unite) | SPC (Cyflogwyr)<br>SPC (Undebau llafur) |
| Undebau llafur | Shavanah Taj | TUC Cymru |
| | Ceri Williams | TUC Cymru |
| | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Cyflogwyr | Leighton Jenkins | CBI Cymru |
| | Janis Richards | Make UK |
| | Lloyd Powell | ACCA Global |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru | Chris Hartwell | Polisi Economaidd |
| | Stephen Layne | Gwaith teg |
| | Robert Hobbs | Ysgrifenyddiaeth SPC |